

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Tachwedd 4: Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos am 7.00 o'r gloch. Cynhelir pwyllgor yr Ymddiriedolwyr wedi'r Cyfarfod Blynyddol.

Nos Fercher, Tachwedd 6: Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 10: Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofgolofn am 9.15 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, ac yna gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Lun, Tachwedd 4: Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos am 7.00 o'r gloch. Cynhelir pwyllgor yr Ymddiriedolwyr wedi'r Cyfarfod Blynyddol.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 3

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 10

9.15 a.m. - Oedfa Sul y Cofio
(wrth y Gofgolofn)
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Tachwedd 17

10.00 - Oedfa Deulu
11.30 a.m. - 1.00 p.m.
Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Nos Fercher, Tachwedd 6: Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 8: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 10: Oedfa am 10.00 o'r gloch dan ofal y Gweinidog. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 10: Oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

COFIWCH AM SUL EFE

yn y Ganolfan Llanberis

Tachwedd 17
11.30 – 1.00 o'r gloch

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 3

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Tachwedd 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Tachwedd 17

10.00 a.m. - Y Parchg Ddr John Glyn
11.30 a.m. - 1.00 p.m.
Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatree

Tachwedd 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ar ôl yr Oedfa Deulu bydd Cinio Cawl yn y festri er mwyn codi arian at Apêl Haiti.
Croeso cynnes i bawb.

5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 565 – Dydd Sul, 03 Tachwedd 2013

Y Sahara

Beth tybed oedd stori fwyaf yr wythnos ddiwethaf? Y storm a drawodd rannau o wledydd Prydain? Dechrau achos llys Rebekah Brooks ac Andy Coulson? Streic yr ymladdwyr tân? Adwedid David Cameron o ragor o bwerau i Lywodraeth Cymru? Mwy dirdynol yn sicr na'r un o'r straeon hyn oedd yr hyn a ddigwyddodd i gant a mwy o bobl yn Anialwch y Sahara yn Niger. Mae'n debyg mai gadael Niger, un o wledydd tlotaf y byd, er mwyn chwilio am fywyd gwell yn Algeria oedd y bobl hyn. Ond wedi i'w cerbydau dorri bu farw oddeutu 90 ohonynt yng ngwres yr anialwch, wedi dyddiau yno heb ddŵr. Er mai'r wythnos y daeth y drasiedi fawr hon i'r amlwg, fe ddigwyddodd yn gynnar ym mis Hydref, tua'r un pryd felly â thrasiedi arall pan foddwyd dros gant o ffoaduriaid o Eritrea a Somalia pan suddodd eu cwch oddi ar Ynys Lampedusa yn Yr Eidal.

Mor eithriadol o drist y digwyddiadau hyn. Ond mwy trist fyth y ffaith nad digwyddiadau anghyffredin mohonynt. Dywed mudiadau dyngarol bod cymaint ag ugain mil o ffoaduriaid wedi bodd wrth groesi Môr y Canoldir yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf wrth iddynt geisio dianc rhag tlodi affwysol yn eu gwledydd eu hunain.

Y peth mwyaf dirdynol a glywais am yr hyn a ddigwyddodd yn y Sahara oedd geiriau un o'r ychydig a orosodd, sef merch ifanc 14 mlwydd oed o'r enw Shafa. Roedd ei stori hi'n eithriadol o drist. Bu farw ei mam a'i dwy chwaer

yn yr anialwch. Soniodd Shafa hefyd am filwyr o Algeria yn gwrthod rhoi dwr i'r ffoaduriaid; am gerbydau yn gyrru heibio iddynt heb gynnig help; a hyd yn oed am un cerbyd yn taro tri ohonynt a'u lladd. Cafodd ei hachub o'r diwedd gan deithwyr a arhosodd i'w helpu.

Roedd yn amhosib darllen stori Shafa heb gofio'r ddameg a adroddodd Iesu am y Samariad Trugarog. Ac mae'r ddameg honno bob amser yn ein herio i ystyried y math o gymdogaion ydym ninnau i bobl mewn anghenion dyrys iawn o'n cwmpas.

Mae'n amhosibl i ni amgyffred yr hyn a ddigwyddodd yn yng ngwres tanbaid y Sahara. Rhy hawdd yw condemnio'r bobl am beidio â helpu'r ffoaduriaid. Fedrwn ni ddim dychmygu eu harswyd o weld y fath ddiodefaint na'u hofn o gael eu gweld yn gwneud rhywbeth anghyfreithlon wrth eu helpu. Fedrwn ni chwaith ddim bod mor feiddgar â mynnu y byddem ni'n sicr wedi aros i'w helpu.

Yr hyn y gallwn ei wneud yw ceisio nerth a gras i ymateb i'r anghenion a welwn o'n cwmpas yn ein cymdogaeth ein hunain, a gwneud yr hyn a allwn i estyn cymorth i bobl sy'n dioddef mewn rhannau eraill o'r byd trwy'r mudiadau a'r asiantaethau sy'n cynnig cyfle i ni wneud hynny. Un peth sy'n sicr yw mai trwy nerth a gras Duw, ac nid trwy ein nerth ein hunain, y gallwn estyn y cymorth hwnnw bob amser.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnyswaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Ifor Glyn Efans, Capel Curig ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth a chroeso cynnes iddynt. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Byddaf fi'n arwain yr oedfaon yn Neiniolen am 9.30 a 5.00 o'r gloch. Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Cofion

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Ceri Olwen Greenfield yn Eglwys Crist Llandinorwig a Mynwent Machpela echdoe, dydd Gwener, Tachwedd 1 dan arweiniad y Gweinidog. Dr William Munro oedd yr organydd.

Bu farw Ceri yn ei chartref yng Nghaerlŷr ddydd Mawrth, Hydref 22, yn 31 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn o'r newydd â'i gŵr Philip, ac â'i mam Mrs Eirlys Hughes, 1 Porth y Gogledd, Deiniolen a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth. Darllenwyd teyrnged yn y gwasanaeth a oedd wedi ei ysgrifennu gan Phil.

Mae ei chymdogion a'i chyfeillion yn yr ardal hon yn cofio Ceri fel merch ifanc annwyl a hoffus dros ben. Cafodd ei magu yn yr Ysgol Sul a'r oedfaon yn Ebeneser, a diolchwn i Dduw bod y ffydd a gyflwynwyd iddi trwy'r fagwrfa honno wedi bod o gymorth mawr iddi trwy flynyddoedd ei gwaeledd. Wynebodd ei salwch gyda dewrder a sirioldeb a enillodd serch ac edmygedd pawb a fu'n gofalu amdani.

Roedd Ceri a Phil wedi ymgartrefu yng Nghaerlŷr wedi iddynt gyfarfod yno fel myfyrwyr. Daeth amryw o'i chyfeillion o ardal Caerlŷr i'r angladd ac mae Eirlys a Phil yn bwriadu trefnu cyfarfod coffa i Ceri yn y ddinas honno mor fuan â phosibl ar gyfer ffrindiau a gofawyr na allent ddod i'r angladd.

Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir nos Lun diwethaf cafwyd sgwrs gan y Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy. Mr John Ll. Williams oedd llywydd y noson.

Plentyn y Nadolig

Dim ond pythefnos sydd ar ôl i baratoi'r bocsys esgidiau ar gyfer apêl Ymgrych Plentyn y Nadolig.

Nos Sul, Tachwedd 17 yw'r dyddiad pwysig gan fod angen cael y cyfan yn barod yr wythnos honno ar gyfer y lori a fydd yn dod i'w nôl. Caiff yr holl focsys o Ogledd-orllewin Cymru eu hanfon o'r ganolfan arbennig a fydd yn agored yr wythnos ganlynol yn festri capel y Wesleaid yn Llandrillo yn Rhos, ger Bae Colwyn.

Gallwch ddod â'r bocsys fel arfer i'r capeli neu yma'n uniongyrchol i mi yn Nghilfynydd, Llanberis.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos yfory, nos Lun, Tachwedd 4.

Mae croeso i bawb i'r cyfarfod hwn a fydd yn adrodd am waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf. Daliwch i weddio dros y gwaith hwn os gwelwch yn dda.

Sul Efe

Bythefnos i heddiw, ddydd Sul, Tachwedd 17 cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch.

Fel y llynedd gobeithiwn gael cwmni ysgolion Sul yr ardal yn y digwyddiad hwn, a bydd gwahoddiad yn cael ei roi i bob un ohonynt.

Yn wahanol i'r llynedd, ni fydd taith gerdded y tro hwn ond bydd pawb yn dod i'r Ganolfan ar eu hunion. Bydd rhai o staff Coleg y Bala yno'n arwain y gweithgareddau gydag Andrew.

Cinio Cawl Capel

Ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul, Tachwedd 24, bydd croeso i bawb aros i ginio yn y festri.

Bydd yn gyfle i gael pryd o fwyd efo'n gilydd a chodi arian yr un pryd at Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr 2013-2014.

Mae Apêl Haiti yn codi arian at waith Cymorth Cristnogol yn y wlad honno.

Cawn gawl i ginio'r diwrnod hwnnw a chaiff pawb a fydd yno gyfrannu faint bynnag y mae'n ei ddymuno at yr Apêl.

Gobeithio'n fawr y bydd cymaint â phosibl ohonoch yn aros i ginio ar ôl yr oedfa ac y cawn gychwyn da i'r gwaith o godi arian at yr Apêl.

Ymdeol

Mae Mr Ernest Jones, Porth y Gogledd wedi datgan ei fod gyda gofid yn bwriadu ymdeol o fod yn ddiakon yn Ebeneser ddiwedd y flwyddyn. Gwerthfawrogwn wasanaeth ffyddlon Ernie i'r eglwys ar hyd y blynyddoedd, a chawn gyfle i ddiolch iddo ddiwedd y flwyddyn. Yn naturiol, bydd angen ceisio ethol diaconiaid mor fuan â phosibl.

Ffair Nadolig

Bwriedir cynnal Ffair Nadolig yn Capel Coch brynhawn Mercher, Rhagfyr 4.

Bydd yno stondinau amrywiol ac os oes gennyh nwyddau newydd neu bron yn newydd nad ydych eu heisiau, yna bydd y trefnwyr yn falch o'u cael ar gyfer y byrddau gwerthu. Bydd yno hefyd stondinau cacennau a thuniau bwyd, a gwerthfawrogir pob cyfraniad tuag at y rheiny.